# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | |
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 5 |
| 5 - Adroddiad y Gwasanaeth Morwrol | 12 |
| Atodiad 1 - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Harbwr | 14 |
| Atodiad 2 - Ystadegau Hafan a Harbwr Pwllheli i Mawrth 2014 | 16 |
| Atodiad 3 - Cyllideb Harbwr Pwllheli diwedd Chwefror 2014 | 23 |
| Atodiad 4 - Cyllideb Hafan Pwllheli diwedd Chwefror 2014 | 24 |
| Atodiad 5 - Ffioedd a Thaliadau Cyffredinol | 26 |
| Atodiad 6 - Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pwer a Badau Dwr Personol | 27 |
| Atodiad 7 - Ffioedd Harbwr Pwllheli 2014-15 | 28 |
| Atodiad 8 - Ffioedd Hafan Pwllheli 2014-15 | 29 |
| Atodiad 9 - Chwyddiant ar Incwm 2014-15 | 34 |

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

**PWLLHELI HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**6.00PM, DYDD MERCHER, 19 MAWRTH, 2014**

**6.00PM, WEDNESDAY, 19 MARCH, 2014**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GYFARFOD, FRONDEG, PWLLHELI**
**MEETING ROOM, FRONDEG, PWLLHELI**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**(01286 679020)**

***BethanAdams@gwynedd.gov.uk***

**Dosbarthwyd/Distributed 11-3-14**

**AELODAETH/MEMBERSHIP:**

| | |
|---|---|
| **CYNGOR GWYNEDD** | |
| Cyng/Cllr Robert J. Wright | (Aelod Lleol/Local Member) |
| Cyng/Cllr Michael Sol Owen | (Aelod Lleol/Local Member) |
| Cyng/Cllr Peter Read | (Aelod Lleol Abererch Local Member) |
| | |
| **Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members** | |
| Cyng/Cllr Mici Plwm | (Cyngor Tref Pwllheli Town Council) |
| *I'w ethol/To be elected* | (Sefydliad y Bad Achub/Lifeboat Association) |
| Mr Rod Green | (Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch/Pwllheli and District Boat Owners Association) |
| Mr David Dewsbury | (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli/Hafan Berth Holders Association) |
| | |
| Mr Stephen Tudor | (Clwb Hwylio Pwllheli Yacht Club) |
| Mr Wil Partington | (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli/Maritime Traders Association) |
| Mr Andrew Picken | Siambr Fasnach Pwllheli Chamber of Trade |
| | |
| **Sylwedyddion / Observers** | |
| | |
| Mr David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi Aberdyfi Harbour Consultative Committee |
| Cyng/Cllr Gethin G. Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw Barmouth Harbour Consultative Committee |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Porthmadog Harbour Consultative Committee |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2013, fel rhai cywir
(copi yma -papur **melyn**)

## 5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig,
(copi yma – papur **glas**)

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Hydref, 2014.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 22/10/13

**Presennol:** Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Michael Sol Owen, Robert J. Wright (Cyngor Gwynedd), David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli), Bob Lowe (Clwb Hwylio Pwllheli), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambr Fasnach Pwllheli), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli),

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli), Gareth Wright (Rheolwr Uned - RhRLEA), a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Rod Green (Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli), Y Cynghorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet – Economi) a'r Cynghorydd David Richardson (Sylwedydd)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Michael Sol Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2013 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

### Datblygiadau Academi Hwylio

Derbyniwyd diweddariad ar ddatblygiadau'r Academi Hwylio a charthu gan Reolwr Uned - RhRLEA.

Nodwyd bod gwaith ail-ddylunio wedi ei wneud ar ddyluniadau ar gyfer adeilad yr Academi Hwylio oherwydd bod y tendrau a gyflwynwyd yn cynnig prisiau a oedd yn uwch na'r gyllideb. Ymchwiliwyd i ffyrdd llai costus o adeiladu'r Academi a phenderfynwyd defnyddio deunydd a oedd yn fwy hygyrch yn yr ardal i greu ffrâm yr adeilad. Nodwyd y byddai cyfnod o wahodd tendrau yn dechrau yn fuan am gyfnod o bum wythnos. Bwriedir asesu'r tendrau a chynnig i'r ymgeisydd buddugol. Byddai'r broses yma yn cymryd tan gyfnod y Nadolig gan ddechrau ar y gwaith yn gynnar blwyddyn nesaf gyda tharged cwblhau'r gwaith o Ebrill 2015.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Rheolwr Uned - RhRLEA yng nghyswllt effaith y llithriad amserlen ar dderbyn grant bod lwfans ar gyfer chwyddiant wedi ei gynnwys yn y gyllideb a

bod hyblygrwydd efo gwariant arian grant gan Ewrop yn galluogi'r Cyngor i ledaenu'r gwariant dros flynyddoedd ariannol ond nad oedd hyblygrwydd yn wariant grant TMF y Cynulliad.

Pwysleisiwyd gwerth ail-dendro oherwydd roedd y math o ffrâm a ddewiswyd yn gychwynnol yn golygu bod dim digon o gystadleuaeth ar gyfer y tendr gan fyddai yn weithgaredd arbenigol. Nodwyd na fyddai'r newid yn wneuthuriad y ffrâm yn newid edrychiad allanol yr adeilad.

Parthed y gwaith carthu nodwyd bod cais am drwydded forol a chais cynllunio wedi eu cyflwyno diwedd mis Mehefin.

Ym mis Ebrill 2013, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am drwyddedau morol o'r Cynulliad i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac roedd yr ail-strwythuro wedi achosi oedi oherwydd diffyg adnoddau i ddelio â'r cais. Yn dilyn 10 wythnos o oedi gan CNC ar gychwyn y broses, cafwyd cais am fwy o wybodaeth.

Roedd y 'Centre for Environment, Fisheries & Aquaculture Science' (CEFAS), sef ymgynghorai gwyddonol CNC, yn nodi y dylid gwneud fwy o waith samplo yn yr Hafan lle bydd y carthu yn cymryd lle a'r ardal adennill tir. Nodwyd mai amserlen cymryd y samplau yw'r broblem, yn ogystal â chost ychwanegol, a bod rhaid adnabod llanw priodol i wneud y gwaith gyda ffenestr wythnos yn dechrau 4ydd o Dachwedd wedi ei adnabod i ymgymryd â'r gwaith samplo. Gobeithir y bydd CNC yn rhoi caniatâd ar yr amod nad yw'r gwaith carthu yn dechrau nes derbyn cadarnhad gan CEFAS eu bod yn hapus efo canlyniadau'r gwaith samplo. Bwriedir adeiladu bwnd, yn dilyn mwy o drafodaethau hefo'r Contractwr ynghylch y rhaglen, cyn y Nadolig a dechrau carthu ym mis Ionawr wedi derbyn cadarnhad gan CEFAS.

Nododd aelod bod y cais cynllunio o flaen y Pwyllgor Cynllunio ar y 4ydd o Dachwedd.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Rheolwr Uned - RhRLEA bod mwy o wybodaeth wedi ei anfon at CNC (yr elfen sydd hefo dyletswyddau'r hen Asiantaeth Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) a bod y Gwasanaeth Cynllunio wedi derbyn cadarnhad gan CNC eu bod yn hapus efo'r wybodaeth sydd wedi ei ddarparu felly gobeithir na fydd cymhlethdodau.

Nododd aelod bod yr oedi cyn cychwyn y gwaith wedi cael effaith ar yr Hafan, Clwb Hwylio Pwllheli a'r Academi yn y pendraw a bod hyn yn rhwystredig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod y dylai'r Pensaer ar Syrfëwr Meintiau fod wedi gallu rhagweld na fyddai'r deunydd ddim ar gael yn hawdd yn yr ardal a'u hatebolrwydd hwy am yr oedi, nododd y Rheolwr Uned - RhRLEA bod nifer o unigolion ynghlwm yn y cynllun ynghyd â'r Pensaer ar Syrfëwr Meintiau,  bod nifer o gynlluniau cost wedi eu gwneud, eu bod wedi profi'r farchnad a chreu amcangyfrif cost manwl ar sail 'bill of quantities' a oedd yn dangos y byddai'n bosib ymgymryd â'r gwaith trwy'r dull hwn.

Mynegwyd pryder bod deiliaid angorfeydd yn gadael yr Hafan gyda cholled ariannol i'r Hafan, Y Cyngor a masnachwyr a fyddai'n effeithio am flynyddoedd.

Gwnaed cais i gael adroddiad ar y cynllun hyd yn hyn, am sefyllfa'r Academi Hwylio a Hafan yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wrth dderbyn y rhwystredigaeth efo'r sefyllfa bod angen edrych yn bositif i'r dyfodol a bod y datblygiad yn gyffrous i Bwllheli. Nodwyd y byddai'r byd hwylio yn adnabod Pwllheli fel lle sydd yn flaenllaw ar gyfer y gweithgareddau yma pan fydd y broses yn cyflymu.

**Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau**

Cyfeiriwyd at adroddiad yr Aelod Cabinet a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 17 Medi 2013 i ddiweddaru trefniadau gweithredu ac atebolrwydd dyletswyddau rheoli Harbyrau'r Sir yn unol â'r Cod Diogelwch Morwrol ac i fabwysiadu cyfansoddiad safonol ar gyfer y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau.

Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ar gynnwys yr adroddiad. Tynnwyd sylw at y tair elfen berthnasol o'r cod sef atebolrwydd am ddiogelwch morwrol, dogfennau a'r Pwyllgorau Harbwr. Nodwyd y byddai adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi i Gabinet y Cyngor a bydd unrhyw gasgliadau/barn y Pwyllgorau Ymgynghorol yn bwydo i'r adroddiad. Bwriedir cryfhau'r cyswllt rhwng y Pwyllgor Ymgynghorol a'r Aelod Cabinet - Economi gan estyn gwahoddiad i'r Aelod Cabinet fynychu'r cyfarfodydd.

Cyfeiriwyd at gylch gorchwyl diwygiedig a luniwyd gan yr Uned Gyfreithiol ar gyfer y Pwyllgorau Ymgynghorol sydd yn cyd-fynd â Chyfansoddiad y Cyngor ac yn cysoni trefniadau. Amlygwyd y prif newidiadau canlynol:

- Cabinet y Cyngor sydd yn gyfrifol am benodi aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol.
- Etholir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Ymgynghorol o blith aelodau sy'n gynghorwyr sir.
- Cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor bydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.
- Bod y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol a gyfeirir ato gan y Cabinet.

Nododd aelod yng nghyswllt aelodau arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr Harbwr ar y Pwyllgor, bod rhestr o gynrychiolwyr posib wedi cael ei greu ar gyfer Pwyllgor Ymgynghorol Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon a bod cynrychiolydd ar ran yr amgylchedd yn eistedd arno ac y byddai'n darparu copi ar gyfer y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig er ystyriaeth.

Tynnodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sylw'r aelodau at y Cod Diogelwch Harbwr Drafft a anfonwyd atynt a nododd mai ond fersiwn Saesneg oedd wedi ei gyhoeddi ar hyn o bryd ond bod cais wedi ei wneud i Adran Drafnidiaeth y Deyrnas Unedig i'w dderbyn yn Gymraeg.

Gofynnwyd i'r aelodau ymgynghori gyda'r cyrff maent yn eu cynrychioli ar gynnwys y cod a chroesawyd derbyn sylwadau ar y ddogfen. Nododd y bwriedir cyflwyno'r cod llawn ynghyd â'r atodiadau i'r Pwyllgor Ymgynghorol yng nghyfarfod mis Mawrth gyda'r bwriad o'i fabwysiadu yn Ebrill 2014. Nid oedd y Cod Diogelwch Harbwr yn ddogfen statudol ond yn cael ei weld fel ymarfer da.

**Rheoliadau a Chofrestru Badau Dŵr Personol a Chychod Pŵer**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad yw'n orfodol ym mhob Cyngor i gofrestru badau dŵr personol ond ei fod yn cael ei ystyried fel ymarfer da gyda Chynghorau eraill megis Ynys Môn a Chonwy eisiau mabwysiadu'r drefn.

Nodwyd bod llai o gwynion y flwyddyn yma gyda dwy ddamwain ger traeth Y Warren a thraeth y Greig Ddu. Yn dilyn adrodd ar y damweiniau daeth yr 'Marine Accident Investigation Branch' (MAIB) i'r casgliad nad oedd angen cymryd camau pellach.

Pwysleisiwyd ei fod yn orfodol i unigolion gofrestru eu llestr neu eu badau dŵr yng Ngwynedd gan hefyd ardystio bod ganddynt yswiriant.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed diffyg rheolaeth/cynrychiolaeth ar y llithrfa i'r ochr ddeheuol o'r Hafan, hysbysodd y swyddog yn dilyn newidiadau i'r strwythur staffio nad oedd rheolaeth wedi ei drosglwyddo i gwmni allanol oherwydd problemau materion eiddo. Nododd ei fod yn hyderus y byddai trefniadau mewn lle cyn 1 Ebrill 2014.

Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegol, nododd y swyddog y byddai angen edrych ar y broblem o gerbydau yn parcio ar y llethr gan geisio rhoi cynllun cryf yn ei le i stopio hyn rhag amharu.

**Mordwyo ac Angorfeydd**

Adroddwyd bod Tŷ'r Drindod wedi cynnal archwiliad o'r cymhorthion mordwyo a'u bod yn fodlon efo'r cymhorthion. Nodwyd bod stanciau wedi cael eu tynnu ar gyfer creu dŵr dwfn yn y sianel i gynorthwyo cychod i fynd i mewn ac allan. Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal yn ystod y Gaeaf gyda Rheolwr Harbwr Pwllheli ar ail-edrych ar y marciau ar y tir ac ychwanegu at niferoedd marciau glannau môr ym Mae Abererch i gryfhau'r sefyllfa.

Hysbyswyd bod gwaith cynnal a chadw wedi ei gwblhau ar yr angorfeydd ac y dylent barhau i fod o safon am ddwy flynedd.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Dŵr Cymru yn dilyn cais i dynnu cymhorthydd gan y Gwasanaeth Morwrol wedi bod yn edrych ar eu cymhorthydd ar ben y bibell a oedd yn y gorffennol yn arllwys carthion i mewn i'r Harbwr. Nid yw'n bosib defnyddio'r bibell oherwydd ei fod wedi ei orchuddio gyda thywod ac felly ym marn y gwasanaeth dylid tynnu'r cymhorthydd.

Nododd aelod nad oedd Harbwr Pwllheli yn hawdd dod i mewn yn y nos gyda goleuadau'r groesfan yn amharu ar welededd, y wal hyfforddiant tanddwr a dim digon o farciau i roi cymorth. Diolchodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am y sylwadau a nododd y byddai'n siarad efo'r aelod am y mater.

Cyfeiriodd aelod at sedd wag Sefydliad y Bâd Achub ar y Pwyllgor ac y dylid eu hannog i enwebu aelod i'w cynrychioli neu os ydynt yn fodlon i'r aelod lleol fynegi eu sylwadau y dylid efallai edrych ar fudiadau eraill i gymryd y sedd. Mewn ymateb, nododd yr aelod lleol y byddai'n ceisio cael enwebiad gan Sefydliad y Bâd Achub.

**Ystadegau Morwrol**

Adroddwyd bod cynnydd sylweddol yn y niferoedd a oedd yn ymweld â Gwynedd a bod y tywydd braf wedi bod o help. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng y Gwasanaeth Morwrol a Sefydliad y Bâd Achub ynglŷn â goruchwyliaeth yr ardaloedd yn ddiweddar. Cyfeiriwyd at y lleihad yn y niferoedd o gychod yn yr Hafan ac mai'r nod yw cynyddu niferoedd ond ei bod yn anodd yn y sefyllfa economaidd bresennol sydd yn cael effaith ar draws y Deyrnas Unedig.

Nododd Rheolwr Harbwr Pwllheli bod 302 angorfa flynyddol yn yr Hafan ar hyn o bryd a'i fod yn rhagweld y byddai'r sefyllfa yn gwella o 2015 ymlaen. 'Roedd niferoedd ochr yr ymwelwyr wedi bod yn dda a hynny oherwydd y tywydd braf yn ystod yr Haf.

Nododd aelod bod y niferoedd a oedd yn parcio a lansio wedi cynyddu a bod hyd y cychod a oedd yn yr Hafan wedi lleihau. Hysbyswyd bod cwmni Plas Heli wedi derbyn grant ar gyfer marchnata'r Hafan gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd.

Gwnaed sylw gan aelod parthed edrych ar strwythur ffioedd yr Hafan er mwyn ceisio denu mwy o bobl i ddefnyddio'r Hafan ac y dylid efallai geisio denu mwy o gychod bach i'r Hafan. Nodwyd y dylid edrych ar farchnata'r Hafan mewn ffyrdd eraill.

**Cyllidebau**

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi bod yn flwyddyn ariannol heriol a doedd y sefyllfa fregus economaidd ddim wedi bod o help i gyrraedd targedau incwm. Pwysleisiwyd ei fod yn debygol i flwyddyn ariannol 2013-14 fod yn llawer mwy heriol oherwydd toriadau enfawr i gyllideb Awdurdodau Lleol felly mae'n rhaid gwella effeithlonrwydd.

Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wrth edrych ar y sefyllfa ariannol yn chwarter 1 eu bod yn rhagweld y byddai Harbwr Pwllheli erbyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn gorwario o £300,000 ond wrth edrych ar ffigyrau chwarter 2 bod y gorwariant tebygol i lawr i £200,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nododd bod rhaid gwario yn ofalus dros fisoedd y Gaeaf oherwydd bod y diffyg yn gyllidebau'r Harbyrau yn effeithio ar wasanaethau eraill yr Adran Economi a Chymuned.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed incwm yr Hafan o £790,898 ar gyfer 2012-13, nododd y swyddog bod unrhyw incwm fel gwasanaeth yn cynorthwyo elfennau eraill o'r Cyngor sydd yn helpu trethdalwyr.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â lefel staffio'r Gwasanaeth Morwrol, nododd y swyddog bod 1 swydd a hanner yn llai yn y blynyddoedd diwethaf ond bod lefel maint y gwaith yr un fath a gwaith cynnal â chadw wedi cynyddu. Ychwanegwyd bod adnoddau staffio'r Hafan yn cael eu defnyddio yn yr Harbwr Allanol a oedd yn galluogi i gynnal y gwasanaeth.

Hysbysodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod adolygiadau strategol yn cael eu cynnal yn yr Adran Economi a Chymuned a bod gwaith cychwynnol yn y misoedd nesaf i adnabod opsiynau tymor hir ar gyfer modelau rheoli'r Hafan. Pwysleisiwyd mai gwaith cychwynnol ydoedd ac efallai y byddai'n fuddiol yn y misoedd nesaf i gael cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i rannu syniadau a derbyn adborth ar y meini prawf yn benodol.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Ymgynghorol os oes angen.**

Ychwanegwyd bod grŵp prosiect yn mynd i gael ei sefydlu gan y Cyngor i ystyried y weledigaeth a'r opsiynau i ymgyrraedd â'r weledigaeth ond bod awydd i ymgysylltu ac eraill megis yr aelodau lleol, Cyngor Tref Pwllheli a defnyddwyr.

Nodwyd pryder y byddai'r Hafan a gafodd ei sefydlu ar gyfer budd y gymuned leol yn cael ei reoli o bell.

Nododd aelod bod elw sylweddol yn dod i'r Cyngor o'r Hafan o gymharu â gwasanaethau eraill. Mewn ymateb, noddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod buddsoddiad wedi cael ei wneud yn y gorffennol sydd wedi galluogi'r sefyllfa incwm yma a bod dyfodol Pwllheli yn ddisglair a gwaith yn mynd ymlaen yn gyflym iawn er gwaethaf y sefyllfa gyllidol ac economaidd.

Hysbyswyd bod adolygiad o ffioedd a thaliadau ar gyfer 2014/15 wedi cychwyn ac fel arfer bod targedau incwm yn codi efo chwyddiant. Nodwyd bod rhaid bod yn ofalus iawn efo cynyddu'r ffioedd yn dilyn gostyngiad yn y niferoedd. Bod dipyn o waith i wneud i bennu ffioedd 2014/15 gyda risg wrth gynyddu y byddai'r niferoedd yn llai, wrth gadw'r ffioedd yr un fath efallai bod rhai am fynd beth bynnag a neb yn eu lle ac os am leihau ydi'r lleihad yn mynd i fod yn fwy na'r incwm sydd yn dod i mewn.

Nododd aelod bod nifer o bobl yn mynd i wledydd eraill megis Ffrainc, Portiwgal a Sbaen a bod y ffioedd tua hanner ffioedd Pwllheli a bod cymhelliant ar gyfer aros am gyfnod o flynyddoedd ac y dylid nodi bod y gystadleuaeth yn dod o bell.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr arfordir o werth sylweddol i economi Gwynedd oherwydd y buddsoddiad a wnaed yn y gorffennol.

**Gwerthiant Disel Coch**

Gofynnwyd am farn yr aelodau ar hepgor gwerthu disel coch yn yr Hafan a dim ond gwerthu disel gwyn oherwydd trafferthion yn ddiweddar lle 'roedd cychod a oedd wedi ei llenwi gyda disel coch a ddim wedi cael eu defnyddio am gyfnod hir wedi datblygu problemau efo'r injan.

Tynnwyd sylw mai 10c y litr oedd o wahaniaeth yn y pris rhwng disel coch a disel gwyn a gwnaed sylw y byddai'n werth talu mwy er diogelu'r injan.

Nododd aelod bod defnyddio disel coch yn anghyfreithlon mewn rhai gwledydd megis Ffrainc a'r Iseldiroedd.

Gofynnodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i gynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli ddod yn ôl at y Gwasanaeth Morwrol unwaith y byddai wedi casglu sylwadau'r corff yr 'roedd yn ei gynrychioli.

**Marchnata**

Adroddwyd bod y cyfeirydd 'Cruising Anglesey' bellach yn cynnwys Abermaw ac Aberdyfi felly yn cynnwys Gwynedd i gyd a bod hysbyseb yng nghylchgrawn 'Practical Boat Owner' ynghyd ag erthygl am Bwllheli. Nodwyd bod cwyn wedi ei wneud gan y gwasanaeth i 'PBO' nad oedd yr erthygl yn cynnwys digon o wybodaeth ac nad oedd yn ddigon positif.

Ychwanegwyd bod Cynllun Strategaeth Marchnata Drafft wedi cael ei lunio ar gyfer yr Hafan ac y byddai'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn rhannu'r ddogfen gyda'r aelodau unwaith y byddai wedi ei gadarnhau a bod pecynnau gwybodaeth yn ogystal ar gyfer yr Hafan.

Diolchodd aelod i staff y Gwasanaeth Morwrol ar ran y deiliad cychod am eu gwaith yn yr Hafan a'r Harbwr.

**Diogelwch Offer Morol**

Hysbyswyd bod yr heddlu yn dilyn nifer o achosion o droseddau yng nghyswllt offer morol wedi penodi SCCH Paul Duggan i edrych ar ôl elfennau yn ymwneud ac offer morwrol. Anogwyd pawb i gofrestru eu heiddo drwy'r cynllun Gwarchod Morol a gofynnwyd i gynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli annog ei aelodau i gofrestru gan ei fod yn ei wneud yn haws i ddychwelyd unrhyw offer sydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r perchennog.

**Trefniadau Gaeaf 2013/14**

Nodwyd bod y Gwasanaeth Morwrol yn parhau efo'u cynllun cynnal a chadw dros y Gaeaf sydd yn cynnwys ail wifrio pontŵn 8 a 9, tacluso'r cawodydd, gwaith tirlunio a stancio mordwyon. Yng nghyswllt y gwaith carthu, nododd Rheolwr Harbwr Pwllheli bod angen symud cychod i alluogi'r gwaith i fynd yn ei flaen a bod pwysau i beidio amharu.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed cyflwr y pontwns, nododd y rheolwr bod y fframwaith ei hun yn edrych yn dda ond bod y decin yn dechrau mynd a bod eu cyflwr yn cael eu monitro yn flynyddol â'r gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud yn unol â'r drefn cynnal a chadw.

**Clwb Hwylio Pwllheli**

Cyfeiriodd cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli at grynodeb o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan y Clwb Hwylio yn 2013 a nodwyd bod adborth calonogol wedi ei dderbyn.

Adroddwyd bod Pencampwriaeth Byd yn cael ei gynnal ym Mhwllheli ym mis Awst 2014 ac 3 Pencampwriaeth Byd a 1 Pencampwriaeth Ewropeaidd yn 2015 pan fydd yr Academi Hwylio ar agor. Nodwyd yn dilyn derbyn grant ar gyfer swydd marchnata am ddwy flynedd y byddai cwmni Plas Heli yn medru gwthio'r calendr ymlaen i 2016-2018.

Diolchwyd am waith y Clwb Hwylio a oedd yn allweddol i lwyddiant yr Harbwr.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Mawrth 2014.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.50pm

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli*
# *Harbour Consultative Committee*

***19 Mawrth / March 2014***

***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.***

***Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.***

1. ***Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Harbour Consultative Committees***

   - Cadarnhau Cylch Gorchwyl Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli 2014 / Confirmation of Pwllheli Harbour Consultative Committee Terms of Reference 2014

   - Cadarnhau Cynrychiolaeth Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli 2014/ Confirmation of Pwllheli Harbour Consultative Committee Representatives 2014

   - Cadarnhau Materion Agenda Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau / Confirmation of Agenda Items for Harbour Consultative Committees

2. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

   - Derbyn a cadarnhau sylwadau Aelodau ar ddrafft y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive and confirm observations of Members on draft Port Marine Safety Code

3. ***Carthu Harbwr Pwllheli***

   - Diweddariad ar y gwaith carthu cynnal a chadw / Report on maintenance dredging progress
   - Cynllun carthu ceg yr harbwr / Harbour entrance dredging plan
   - Diweddariad datblygiad yr Academi Hwylio / Sailing Academy progress report

4. ***Mordwyo ac Angorfeydd***
   ***Navigation and Moorings***

   - Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
   - Effaith Tywydd Garw / Effects of Adverse Weather (Marian y De)
   - Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
   - Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
   - Cynnal Angorfeydd 2014 / 2014 Mooring Maintenace
   - Gwaredu a Diogelwch Tan Gwyllt / Disposal and Safety of Pyrotechnics

5. ***Ystadegau Morwrol***
   ***Maritime Unit Statistics***

   - Ystadegau Cyffredinol / General Statistics - Hafan

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli*
# *Harbour Consultative Committee*

***6. Cyllidebau Harbyrau***
***Harbour Budgets***

- Targedau Cyllideb Cyfredol 2013-14 / 2013-14 Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
- Ffioedd Angorfeydd Arfaethedig 2014 Proposed Fees and Charges
- Costau Tanwydd ac ansawdd disel coch / Fuel Charges and red diesel fuel quality

***7. Staff Harbwr / Harbour Staff***

- Trefniadau staff Gwanwyn/Haf 2014 – Spring/Summer Staff Arrangements 2014
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

# CYNGOR GWYNEDD.

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR [ ]

**1. Enw**

Gelwir y Pwyllgor yn Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr [ ].

**2. Statws**

2.1 Sefydlir y Pwyllgor dan erthygl 6 Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998
*neu*
Sefydlir y Pwyllgor dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Gabinet y Cyngor. (Gan y Cabinet mae'r swyddogaeth a'r cyfrifoldeb o weithredu fel awdurdod harbwr).

**3. Aelodaeth.**

3.1 Aelodaeth y Pwyllgor fydd:

- Hyd at bedwar aelod lleol o Gyngor Gwynedd.
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n dal portffolio awdurdod harbwr.
- Un aelod o Gyngor Tref [ ]
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr.

3.2 Cabinet y Cyngor fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor a hynny yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor a defnyddwyr yr harbwr.

3.3 Tymor aelodaeth aelodau'r Pwyllgor fydd:

- tan ddyddiad nesaf etholiad llywodraeth leol arferol
- tan y bydd yr aelod yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor
- tan y bydd yr aelod yn peidio â bod yn gynghorydd neu'n peidio â chynrychioli’r buddiant y cafodd ei benodi i'r Pwyllgor i'w chynrychioli
- tan y bydd y Cabinet yn penodi aelod arall yn ei (l)le)
  (pa un bynnag fo fyrraf).

**4. Cadeirydd ac Is-gadeirydd.**

4.1 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i gadeirio ei gyfarfodydd.

4.2 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor bydd y Pwyllgor yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i weithredu yn absenoldeb y Cadeirydd.

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

**5. Cworwm a Phleidleisio.**

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

**6. Amlder Cyfarfodydd.**

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

**7. Cylch Gorchwyl.**

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.


7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.


7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.


**8. Trefn y cyfarfodydd.**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.


**Ystadegau *Hafan Pwllheli* - i Mawrth 2014**
**Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to March 2014**










Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year
2000
1500
1000
500
0
1795
1840
1499
1507
1426
1529
1119
1367
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013


Cyfanswm medr cychod ymwelwyr - Total mts visiting vessels
60000
50000
40000
30000
20000
10000
0
46496
56922
36717
33073
31086
37417
38707
39828
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
Cyfanswm metr cychod ymwelwyr - Total mts visiting vessels




Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest list
500
400
300
200
100
0
465
451
377
202
183
131
133
76
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013

Cychod Hwyl/Pwer ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa -
No of Sail/Power vessels on the Expressions of Interest list
60
50
40
30
20
10
0
54
22
Pwer - Power
Hwyl - Sail


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Hafan - No. of sailing/power vessels in the Hafan
Cychod hwylio/Sailing Vessels
Cychod pwer/power vessels
250
200
150
100
50
0
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013


Gwerthiant Petrol/Disel - Petrol/Diesel sales
Petrol Ltr
Disel - Diesel Ltr
300000
250000
200000
150000
100000
50000
0
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013


**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1af Ebrill i 31ain o Fawrth**


